**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Fawrth, Mawrth 21ain am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Mark Young (cadeirydd), Gaynor Morgan Rees & Medwyn Williams; a Jenny Barlow (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Alyn Ashworth, Margaret Bowe, Philip Stevens & Robert Parkes.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod mis Mawrth 2017.

1. **Datgan Diddordeb Personol.** Dim

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Chwefror 20fed 2017.**

3. **Materion yn codi:** Holodd y Cyng Medwyn Williams am y newyddion diweddaraf ar y cais cynllunio Brwcws. Cadarnhaodd y Cyng Mark Young ei fod wedi cael ei drafod yn y cyfarfod agored a gynhaliwyd ddydd Mercher diwethaf a bod y cais wedi cael ei wrthod. Mae'r cynghorwyr sir yn cael tan y cyfarfod cynllunio nesaf i roi eu gwrthwynebiadau yn ei flaen. Yna gall y cais yn mynd i apêl.

4. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

   Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r cais canlynol am ganiatâd cynllunio:

(1) 01/2017/0105
5 Llys Clwyd, Dinbych.
Codi estyniad i'r annedd.

(2) 01/2017/0106
16 The Green
Codi estyniad i'r annedd.

(3) 01/2016/0911
Parc Carafanau Lleweni, Parc Lleweni, Ffordd y Wyddgrug, Dinbych,
Amrywio amod rhif 3 o Ganiatâd Cynllunio cyf 1/11632 Cyngor Dosbarth Glyndŵr I gynyddu nifer uchafswm y carafanau o 10 i 20.

(4) 01/2017/0179
Tŷ Gwyn, Ffordd Rhuthun, Dinbych.
Codi estyniad yn y cefn, garej a newidiadau i'r drychiadau blaen i ffurfio cyntedd.

(5) 01/2017/0170
Grŵp Co-operative, 26 Stryd Fawr, Dinbych.
Gosod drysau mynediad newydd.

Roedd gwrthwynebiadau i'r cais isod. Mae'r Cynghorwyr yn dymuno i roi gwybod am y pwyntiau canlynol.

Materion capasiti gyda thraffig ychwanegol gan y parc manwerthu.

Ddim yn addas ar gyfer y lleoliad, yn fwy addas ar y stad ddiwydiannol.
Allai fod yn brysur gyda'u horiau agor hir a fyddai'n swnllyd ar gyfer y trigolion cyfagos.

(6) 01/2016/1165
Cyn Depo Gwlân, Grove Road, Dinbych
Newid defnydd tir ar gyfer lleoli unedau storio, a swyddfa'r safle.

**5. Materion Cynllunio eraill - Dim**

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 6.49 o'r gloch.

Arwyddwyd:…………………………………………………(cadeirydd)

Dyddiad:…………………………………